

Addysgu nyrsys a bydwreagedd

Pennu'r safonau

Mae ein safonau addysg yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wybod a gallu ei wneud i ymarfer fel nyrs neu fydwaig gofrestredig yn y DU. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ddangos gwerthoedd ac ymddygiad y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Mae ein safonau yn helpu i lywio cynnwys a dyluniad rhaglenni ond nid ydym yn amlinellu'r math o gwricwlwm y mae'n rhaid ei ddilyn. Rhaid i raglenni alluogi myfyrwyr i gyrraedd ein safonau a rhaid iddynt alluogi myfyrwyr i dreulio o leiaf 50 y cant o'u hyfforddiant yn cael profiad go iawn o ddarparu gofal i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau mewn amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd.

Pwy sy'n addysgu nyrsys a bydwreagedd?

Mae nyrsio a bydwreigiaeth yn broffesiynau sy'n gofyn am radd, gan adlewyrchu natur gymhleth a chyfrifol y rolau. Cyfeirir at ddarparwyr addysg fel sefydliadau addysg cymeradwy (SACau) ond partneriaethau ydynt mewn gwirionedd rhwng sefydliad addysg uwch ac amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd fel ymddiriedolaethau neu fyrddau, lleoliadau gofal sylfaenol, meddygfeydd a chartrefi gofal. Dim ond drwy berfformio'n dda ym meysydd damcaniaethol ac ymarferol eu rhaglenni y gall myfyrwyr ddatblygu.

Mae SACau yn gyfrifol am recriwtio myfyrwyr o fewn fframwaith a bennwyd gennym, sy'n asesu gallu ymgeiswyr a'u haddasrwydd i ddilyn gyrfa mewn nyrsio a bydwreigiaeth.

Maent yn asesu gwerthoedd a chymhellion ymgeiswyr yn ogystal â'u cymwysterau. Cadwn gronfa ddata o raglenni addysg nyrsio a bydwreigiaeth cymeradwy. Ar hyn o bryd, cymeradwywn tua 1000 o raglenni mewn 77 o sefydliadau addysg yn y DU. Mae rhai SACau yn cynnig ystod eang o raglenni tra bod eraill yn canolbwyntio ar lai o arbenigeddau.

Rhaid i SACau sicrhau bod mynediad teg ac agored i raglenni nyrsio a bydwreigiaeth. Maent yn gyfrifol am fonitro hynt myfyrwyr a gwneud y dyfarniadau terfynol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr wedi cwblhau eu rhaglenni'n llawn. Hefyd, rhaid iddynt sicrhau bod modd i fyfyrwyr gael gafael ar yr holl adnoddau sydd eu hangen arnynt a bod gan y staff sy'n gysylltiedig â'u rhaglen gymwysterau priodol ac y cânt gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.

Dysgu ar waith

Bydd SACau yn trefnu cyfleoedd dysgu ymarferol i fyfyrwyr ac yn sicrhau eu bod yn ddiogel, yn effeithiol ac yn darparu amrywiaeth o brofiad clinigol. Ymhlith partneriaid lleoliadau ymarfer mae ysbytai, meddygfeydd, gwasanaethau iechyd cymunedol a chartrefi gofal neu unrhyw leoliad addas arall lle y darperir gofal nyrsio neu fydwreigiaeth.

Caiff myfyrwyr fentor sy'n nyrs neu'n fydwraig gofrestredig a hyfforddwyd i gefnogi dysgu ar waith. Rhaid i fentoriaid gadarnhau y gall myfyriwr ddarparu gofal ar y lefel ofynnol o ran sgil a chymhwysedd.

Ymuno â'r gofrestr

Pan fydd myfyrwyr wedi cwblhau eu rhaglen yn llwyddiannus, bydd eu SAC yn ein hysbysu eu bod wedi cyrraedd y safonau addysg ac ymarfer, a bod ganddynt iechyd a chymeriad digonol i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Unwaith y byddwn wedi derbyn y cadarnhad hwn, gallant wneud cais i ymuno â'n cofrestr.

Sicrhau ansawdd addysg

Rydym yn monitro SACau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu rhaglenni yn cyrraedd ein safonau a'u bod yn rheoli risgiau'n effeithiol. Mae adborth gan fyfyrwyr, nyrsys, bydwagedd, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn rhan allweddol o'r broses adolygu ac fe'i cynhwysir yn yr adroddiad terfynol. Gallwn dynnu ein cymeradwyaeth yn ôl os na fydd rhaglenni yn llwyddo i gyrraedd ein safonau.

Defnyddiwn ein gweithgarwch monitro i wneud y canlynol:

- casglu a defnyddio data sy'n ein helpu i ddeall sut yr awn ati i ddiogelu'r cyhoedd a gwella ar hynny
- rhoi adborth i SACau a'u partneriaid lleoliadau ymarfer
- rhannu gwybodaeth briodol ag eraill.

Mae'r tîm adolygu yn cynnwys adolygwyr lleyg a chofrestredig. Aelodau o'r cyhoedd nad ydynt erioed wedi bod ar ein cofrestr yw adolygwyr lleyg. Maent yn cyfrannu at y dyfarniad cyffredinol ac argymhellion ar gyfer gwella i'r SAC. Rydym wedi datblygu fframwaith sy'n galluogi contractwr sicrhau ansawdd allanol i sicrhau bod SACau yn bodloni ein safonau.

Ebrill 2016

www.nmc.org.uk/education